

476/66

**HANES – HI6**

**UNED 6 (Asesiad Synoptig)**

**ASTUDIAETH FANWL 4**

**NEWID A GWRTHDARO YNG NGHYMRU, tua 1900-1914**

A.M. DYDD GWENER, 23 Mehefin 2006

50 munud (o arholiad 1 awr 40 munud)

### **DEUNYDDIAU YCHWANEGOL**

Yn ogystal â'r papur arholiad hwn, bydd angen llyfr ateb 8 tudalen.

### **CYFARWYDDIADAU I YMGEISWYR**

Atebwch **un** cwestiwn.

### **GWYBODAETH I YMGEISWYR**

Dangosir nifer y marciau sydd ar gael mewn cromfachau sgwâr ar ddiwedd pob cwestiwn.

Mae'n bosibl fod y ffynonellau neu'r dyfyniadau a ddefnyddir yn yr uned hon wedi'u diwygio neu eu haddasu o'r gwaith cyhoeddedig a nodir er mwyn eu gwneud yn fwy dealladwy.

**Atgoffir chi y bydd ansawdd y cyfathrebu ysgrifenedig a ddefnyddir yn eich atebion yn effeithio ar y marciau a roddir.**

## UNED 6

## ASTUDIAETH FANWL 4

## NEWID A GWRTHDARO YNG NGHYMRU, tua 1900-1914

*Atebwch un cwestiwn.*

*Atgoffir ymgeiswyr y dylai eu hatebion ddangos ymdriniaeth synoptig o'r cwestiwn sy'n dwyn ynghyd, lle bo'n addas, agweddau gwleidyddol, cymdeithasol, economaidd, crefyddol a diwylliannol ar y testun.*

**1. Newidiadau yn ardaloedd trefol Cymru, tua 1900-1914**

*Astudiwch y ddwy ffynhonnell isod ac atebwch y cwestiwn sy'n eu dilyn.*

Ffynhonnell A

'Casnewydd yw un o'r dociau allforio mwyaf yn y byd, ac mae ei record am gyflymdra anfon nwyddau yn ddigymar (*unrivalled*). Mae agosrwydd y porthladd at lofeydd De Cymru yn nodwedd werthfawr arall, gyda'r glo gorau yn y byd am gynhyrchu gwres a chodi stêm. Caiff miliynau o dunelli eu hallforio'n flynyddol. Mae'n golygu bod yr ardal wedi tyfu'n gyflym iawn a bod safon byw wedi codi'n gyson.'

[Edward Hadley, un a oedd yn drên-garwr brwdfrydig, yn ysgrifennu yn *Newport: The Port and its Great Docks*, erthygl yng nghylchgrawn cwmni Rheilffordd y *Great Western* (1909)]

Ffynhonnell B

'Yn lle cwyno am yr ecsodus gwledig yn gynnar yn yr ugeinfed ganrif dylai'r gwladgarwr Cymreig ganu mawl datblygiad diwydiannol. Roedd twf economaidd yng Nghymru mor enfawr fel bod ei cholled o bobl trwy allfudo yn ddim ond pedwar y cant o'i chynnydd naturiol helaeth dros y cyfnod. Ychydig o wledydd yn Ewrop a ddaeth unrhyw le'n agos at hynny, neu unrhyw le'n agos at y buddiannau eraill a fwynhaodd Cymru yn ganlyniad uniongyrchol i'r newid diwydiannol hwn.'

[Brinley Thomas, hanesydd academiaidd sy'n arbenigo ar hanes economaidd Cymru, yn ei arolwg o Gymru, *The Welsh Economy* (1962)]

Pa mor ddilys yw'r ddwy ffynhonnell hyn fel tystiolaeth i hanesydd sy'n dehongli'r newidiadau yn ardaloedd trefol Cymru, 1900-1914? [80]

## 2. Gwrthdaro diwydiannol yng Nghymru, tua 1900-1914

*Astudiwch y ddwy ffynhonnell isod ac atebwch y cwestiwn sy'n eu dilyn.*

### Ffynhonnell A

‘Mae achosion anfodlonrwydd diwydiannol yn glir. Yn gyntaf, ceir diwylliant cymysg ei hil (*mixed race*) oherwydd mewnfudo, sy'n achosi gwrthdaro. Yn ail, ceir twf cyflym iawn yn y boblogaeth, ac o ganlyniad mae cyfartaledd menywod i ddynion yn isel iawn, gan achosi tuedd i ddynion ymddwyn yn anystyriol a byrbwyll. Yn drydydd, mae gan bwnc yr iaith effaith rwygol (*divisive*) ar y boblogaeth.’

[Rhan o adroddiad gan y Comisiwn Ymchwil i Anfodlonrwydd Diwydiannol yng Nghymru, comisiwn a sefydlwyd gan y Llywodraeth i adrodd ar wrthdaro diwydiannol, ac yn cynnwys pedwar aelod a oedd yn ddiwydianwyr Cymreig amlwg (1914)]

### Ffynhonnell B

‘Wedi 1900 ffrwydrodd pethau. Daeth De Cymru yn ganolbwynt digymar (*unparalleled*) i wrthdaro diwydiannol rhwng y dosbarthiadau trwy Brydain i gyd. Erbyn 1908, pan ymunodd Ffederasiwn Glowyr Prydain â'r Blaid Lafur, ymddangosai fel pe bai rhyfel wedi cael ei gyhoeddi rhwng y dosbarthiadau trwy'r holl ardaloedd glofaol diwydiannol.’

[K. O. Morgan, hanesydd academiaidd ac arbenigwr ar hanes diwydiannol Cymru, yn ysgrifennu mewn llyfr hanes cyffredinol, *Wales: Rebirth of a Nation* (1981)]

Pa mor ddilys yw'r ddwy ffynhonnell hyn fel tystiolaeth i hanesydd sy'n dehongli gwrthdaro diwydiannol yng Nghymru, 1900-1914? [80]

## CYDNABYDDIAETH

Atgynhychir Ffynhonnell B gyda chaniatâd caredig Gwasg Prifysgol Rhydychen.